**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2024

Annwyl Peredur,

Ymhellach at fy llythyr diweddar yn eich hysbysu o gyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid ar 25 Ionawr yng Nghaeredin, hoffwn adrodd yn fyr ar y trafodaethau. Cyhoeddwyd hysbysiad hefyd yn dilyn y cyfarfod: [Cyllid: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol - 25 Ionawr 2024 - (www.gov.uk)]

Yn bresennol gyda mi yn y cyfarfod, roedd y Gwir Anrh. Laura Trott MBE AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys, a Shona Robison ASA, Dirprwy Brif Weinidog yr Alban ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid. Ymunodd swyddogion o Weithrediaeth Gogledd Iwerddon hefyd o bell, i arsylwi.

Yn ystod ein trafodaethau ynghylch y cyd-destun economaidd a chyllidol presennol, codais y mater o'r pwysau sylweddol ar wariant cyhoeddus, yn enwedig y rhai yr adroddir amdanynt gan y GIG a chan yr awdurdodau lleol.

Fel yn achos cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid, pwysleisiais unwaith eto yr achos dros ddarparu rhagor o hyblygrwydd yn y gyllideb, gan gynnwys proses y cytunwyd arni ar gyfer cyfnewid cyfalaf yn refeniw er mwyn cynnig rhagor o sicrwydd yn y dyfodol. Tynnais sylw hefyd at rai o'r argymhellion ariannol yn adroddiad terfynol y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru, a oedd yn dadlau bod yr hyblygrwydd yr ydym yn ei geisio gan Drysorlys EF yn rhesymol. Trafodwyd y pecyn cymorth ariannol yr adroddwyd amdano ar gyfer Gogledd Iwerddon, a phwysleisiais y pwynt fod angen cymorth ym mhob ardal o'r DU i ymateb i'r holl bwysau ar wariant cyhoeddus yr ydym yn eu hwynebu.

Rhoddodd Dirprwy Brif Weinidog yr Alban a minnau ddiweddariad ar gyllidebau y llywodraethau datganoledig. Tynnais sylw at yr heriau yr ydym wedi'u hwynebu y flwyddyn hon o ran ansicrwydd ynghylch ein setliad cyllidebol, a'r penderfyniadau anodd yr ydym wedi'u gwneud er mwyn ail-flaenoriaethu cyllid. Pwysleisiais yr angen i nodi unrhyw newidiadau i'n cyllideb yn gynnar er mwyn cefnogi gwaith cynllunio, gan gynnwys darparu

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn y Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth Gymraeg sy'n dod i law yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

eglurder ar fyrder ynghylch a fydd lefel sylfaenol yn cael ei gosod ar gyfer cyllid Agenda ar gyfer Newid y GIG ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Yn ystod trafodaeth ar Gyllideb y Gwanwyn Llywodraeth y DU, codais yr heriau sy'n dod yn sgil amseru Cyllideb y Gwanwyn, gan ystyried ei bod yn digwydd y diwrnod ar ôl i'r Senedd bleidleisio ar gynlluniau gwariant Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Cyflwynais yr achos dros ddefnyddio unrhyw adnoddau ychwanegol sydd ar gael i'r Canghellor i ddarparu'r buddsoddiad hanfodol sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys cyflogau a phensiynau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chymorth pellach ar gyfer costau byw a buddsoddiad ychwanegol i wella cynhyrchiant a thwf.

Daeth y cyfarfod i ben drwy gyfnewid gwybodaeth a syniadau ar fesurau i drechu tlodi. Rhoddais drosolwg o'r camau a gymerwyd gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiais hefyd y galwadau gan Sefydliad Joseph Rowntree ac Ymddiriedolaeth Trussell i Lywodraeth y DU ddiwygio'n sylfaenol sut y pennir cyfraddau budd-daliadau ac i weithredu Gwarant Hanfodion ar gyfer sicrhau bod pobl yn gallu talu eu costau sylfaenol.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y gwanwyn.

Yn gywir

**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government